# Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

**Mawrth 2015**

# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Teitl**:<br>Rheoliadau a Chanllawiau Statudol ar Ddiogelu sy'n deillio o Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | **Rhif Cyfeirnod yr Asesiad**<br>*(I'w lenwi gan Uned y Gymraeg)*: |
| **Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen**: | P Mulraney |
| **Dyddiad**: | 2 Mawrth 2015 |
| **Arweinydd polisi**: | D Clayton |
| **Manylion cyswllt:** | X1556 |

**Math o Raglen/Prosiect**

- ☐ Polisi
- ☐ Prosiect neu raglen
- ☒ Deddfwriaeth
- ☐ Grant
- ☐ Ymchwil, gwerthusiad
- ☐ Newid busnes
- ☐ Seilwaith
- ☐ Gwasanaethau
- ☐ Adeiladu, Cyfalaf
- ☐ TGCh
- ☐ Contractau, tendrau
- ☐ Arall (Nodwch isod)

**Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?**

Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).

| O dan £25k | £25 - £49k | £50 - £249k | £250k - £1miliwn | Dros £1miliwn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |

**O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?**

Dim

**Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?**

| Hyd at 1 flwyddyn | Hyd at 2 flynedd | Hyd at 5 mlynedd | Hyd at 10 mlynedd | Dros 10 mlynedd | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:**

Rheoliadau'n cael eu gosod gerbron y Cynulliad – 9 Mehefin 2015
Dyddiad y Maent yn Dod i Rym – Ebrill 2016

## CAM 1: CYNLLUNIO

**Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?**

O dan amodau *Cynllun Iaith Gymraeg* Llywodraeth Cymru cynhaliwyd asesiad o effeithiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ystod y broses o ddrafftio'r Bil. Ar y pryd canfu'r asesiad ei bod yn annhebygol y byddai effeithiau negyddol ar y Gymraeg a bod y Ddeddf wedi'i bwriadu i greu system decach a mwy cyfartal i bobl sy'n gymwys i gael gofal a chymorth. Mae *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* yn dwyn ymlaen gryn dipyn o gynnwys *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* a'r ddeddfwriaeth hon sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol trosfwaol ar gyfer y Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus: mae'n rhaid i'r holl bobl a sefydliadau sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol roi ystyriaeth i hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg a bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol.

Caiff Rheoliadau, Codau Ymarfer a Chanllawiau Statudol oll eu tanategu gan yr egwyddorion a nodir yn y Ddeddf, sy'n cynnwys dyletswydd drosfwaol yn 6(2)(c) bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi ystyriaeth i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, sy'n cynnwys iaith.

**Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?**

**a**

**Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?**

### Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru)

Pwrpas y Rheoliadau hyn yw sicrhau nad yw awdurdodau lleol ond yn awdurdodi person i ymgeisio am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion pan fo gan y person hwnnw brofiad perthnasol, ei fod wedi cwblhau hyfforddiant priodol a'i fod yn swyddog mewn awdurdod sy'n awdurdodi.
Er bod yr ymgynghoriad wedi dangos cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion, gwnaeth sawl ymatebydd awgrymiadau i ehangu, egluro neu gyfyngu ymhellach ar y categorïau o bersonau a allai fod yn swyddogion awdurdodedig. Ar y cyfan, rydym yn cynnig cadw gallu awdurdodau lleol i gadw rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodi swyddogion yn unol ag amgylchiadau'r achos unigol. Lle y bo'n briodol, bydd

canllawiau statudol yn rhoi mwy o eglurhad.
Pe na bai'r rheoliadau'n cael eu gwneud ni fyddai unrhyw gyfyngiad statudol ar y person neu'r categorïau o bersonau a all fod yn swyddog awdurdodedig at ddibenion gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.

**Rheoliadau Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru)**
Mae'r Rheoliadau'n amodi y bydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cynnwys hyd at chwe aelod, a'r rheiny wedi'u penodi gan Weinidogion Cymru, gydag un o'r aelodau'n cael ei benodi'n gadeirydd. Maent yn amodi ymhellach ynghylch trafodion y Bwrdd Cenedlaethol, sefydlu grwpiau atodol, gwaith gan y Bwrdd Cenedlaethol i ymgynghori â'r rhai y mae ei waith yn effeithio arnynt, ac maent hefyd yn nodi trefniadau ar gyfer adroddiad blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru. Bydd gwneud y Rheoliadau'n cefnogi'r broses o sefydlu'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol gyda chylch gorchwyl i ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol, cynghori Gweinidogion ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu; a chynghori ynghylch camau gweithredu i gryfhau polisi a gwella arfer.
Pe na bai'r Rheoliadau'n cael eu gwneud ni fyddai rôl arfaethedig y Bwrdd Cenedlaethol yn gallu cael ei chyflawni yn y modd a ragwelir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru)**
Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer swyddogaethau a gweithdrefnau Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion a sefydlir o dan adran 134 o'r Ddeddf. Bydd gwneud y Rheoliadau'n darparu fframwaith cyson a chydlynol ar gyfer Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion o ran sut y mae'n rhaid iddynt gyflawni eu hamcanion o dan y Ddeddf i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso, a hwyluso cydweithrediad rhwng byrddau diogelu, a rhwng byrddau diogelu a'r Bwrdd Cenedlaethol.
Pe na bai'r Rheoliadau'n cael eu gwneud, byddai potensial ar gyfer diffyg eglurder a chysondeb o ran Byrddau Diogelu'n arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chyflawni eu hamcanion a nodir yn adrannau 134(1) a (2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru)**
Pwrpas y Rheoliadau yw darparu ôl troed cydlynol, cyffredin ar gyfer sefydlu byrddau diogelu a fydd yn galluogi ac yn cefnogi gwaith ar y cyd ar draws llywodraeth leol, gwasanaethau iechyd a'r heddlu, gan leihau cymhlethdod ac achosion o ddyblygu. Canlyniad allweddol y pecyn hwn o ddiwygiadau statudol a rheoleiddiol yw sicrhau bod partneriaid ar fyrddau diogelu'n cael eu cynorthwyo gan arweinyddiaeth fwy cadarn a fframwaith cryfach a mwy effeithiol ar gyfer cydweithrediad amlasiantaeth.

**Canllawiau Statudol o dan Ran 7**
Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i gynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol gael eu hysgrifennu yn Gymraeg ac yn

| |
|---|
| Saesneg. |
| **A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - Iaith fyw: Iaith byw?** |
| Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd drosfwaol yn 6(2)(c) bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi ystyriaeth i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, sy'n cynnwys iaith. |
| **Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**<br>h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg? |
| Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd drosfwaol yn 6(2)(c) bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi ystyriaeth i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, sy'n cynnwys iaith. |
| **Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?** |
| Caiff y rheoliadau eu tanategu gan egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n datgan bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi ystyriaeth i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, sy'n cynnwys iaith. I'r perwyl hwn rydym yn disgwyl y bydd unrhyw randdeiliaid sydd o fewn cwmpas y gorchmynion hyn yn gallu cael mynediad yn rhesymol at wasanaethau gofal a chymorth yn Gymraeg os byddant yn dymuno. |
| **Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod.** (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol) |
| Amherthnasol |
| **Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**<br>e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)? |
| Cafodd nifer o ddogfennau ategol allweddol eu cyfieithu ar gyfer yr ymgynghoriad ynghylch codau ymarfer, canllawiau statudol ac Offerynnau Statudol. Mae'r wybodaeth allweddol yn cynnwys:<br><br>Dogfennau Ymgynghori<br>Cwestiynau Ymgynghori<br>Crynodeb Gweithredol<br>Crynodeb Gweithredol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc<br>Crynodeb Gweithredol Hawdd i'w Ddarllen. |

| | |
|---|---|
| Cafodd grwpiau Cymraeg eu hiaith, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, eu gwahodd i ymateb i'r ymgynghoriad. | |
| **CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU** | |
| **<u>Crynodeb o'r Asesiad Effaith</u>**<br>**Crynhowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.** | |
| **Effeithiau cadarnhaol:** | |
| Caiff y rheoliadau eu tanategu gan egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n datgan bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi ystyriaeth i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, sy'n cynnwys iaith. I'r perwyl hwn rydym yn disgwyl y bydd unrhyw randdeiliaid sydd o fewn cwmpas y gorchmynion hyn yn gallu cael mynediad yn rhesymol at wasanaethau gofal a chymorth yn Gymraeg os byddant yn dymuno. | |
| **Effeithiau negyddol:** | |
| Dim | |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?** | |
| Caiff y rheoliadau eu tanategu gan egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n datgan bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi ystyriaeth i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, sy'n cynnwys iaith. I'r perwyl hwn rydym yn disgwyl y bydd unrhyw randdeiliaid sydd o fewn cwmpas y gorchmynion hyn yn gallu cael mynediad yn rhesymol at wasanaethau gofal a chymorth yn Gymraeg os byddant yn dymuno. | |
| **Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:** | |
| Roedd adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg "Y Gymraeg a Gwasanaethau Cymdeithasol" yn dadlau ei fod "yn dangos tueddiad i siaradwyr Cymraeg fod ag angen defnyddio'r Gymraeg yng nghyd-destun gofal iechyd ac roedd yn cyfeirio at bedwar grŵp agored i niwed – plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl ag anableddau dysgu. Ystyrir bod y grwpiau hyn yn agored i niwed am fod eu gofal a'u triniaeth yn dioddef os nad ydynt yn cael triniaeth yn eu dewis iaith." Caiff hyn ei ailddatgan gan Gyngor Gofal Cymru yn ei bapur ymchwil ar gyfer Athrawon a Myfyrwyr Ymarfer Gofal Cymdeithasol sy'n dwyn y teitl "Dwy Iaith, Dau Ddewis – cysyniad o ddewis iaith ym maes gwaith a gofal cymdeithasol" sy'n dynodi bod tystiolaeth eglur, nid dim ond ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau dwyieithog yng Nghymru ond ledled y byd, sy'n dangos bod pobl yn troi at eu "mamiaith" wrth fynegi eu hunain yn gyffredinol neu ar adegau ingol. | |
| **Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael** | Cadarnhaol: ☐<br>Negyddol: ☐ |

| | |
|---|---|
| **ei ddatblygu?** | Niwtral: ☒<br>Anhysbys: ☐ |

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad** | 1. Dim newid sylweddol ☒ |
| | 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau ☐ |
| | 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru ☐ |
| | 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno ☐ |

***Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod,* atebwch y canlynol:**

**Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg?**

**Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:**

**Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Bydd ymgynghoriad 12 wythnos yn cynnwys rhai cwestiynau pwnc-benodol ynghylch rhannau o'r Ddeddf y mae'r rheoliadau'n berthnasol iddynt. Nid oes unrhyw gwestiynau penodol ynghylch y Gymraeg.

## CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

**Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Trefnwyd fod dogfennau ymgynghori ar gael, lle'r oedd yn briodol, yn Gymraeg gan gynnwys y dogfennau ymgynghori, crynodeb gweithredol ategol, fersiwn o'r crynodeb a oedd yn addas i blant a phobl ifanc a fersiwn hawdd i'w darllen o'r crynodeb. Hefyd, yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd yr adroddiad cryno (a ddisgwylir ym mis Mai) yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg.

Ni chafodd unrhyw faterion uniongyrchol mewn perthynas â'r Gymraeg eu codi trwy ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?**

Byddwn yn parhau i sicrhau y cydymffurfir â gofynion statudol mewn perthynas â'r Gymraeg

**Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?**

Bydd y modd y darperir gwasanaethau'n cael ei fonitro fel rhan o weithredu 'Mwy na Geiriau', y mae proses fonitro strwythuredig wedi cael ei fabwysiadu ar ei gyfer a honno'n cynnwys tystiolaeth o'r sectorau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

| **Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy’n dod i’r amlwg** |
|---|
| |

**4. Datganiad**

| **Arweinydd polisi:**<br><br>**Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.** |
|---|
| Enw: |
| Phil Mulraney |
| Adran: |
| Cyflawni Polisi ar gyfer Plant ac Oedolion |
| Dyddiad(au): |
| |
| Llofnod: |
| |
| Dyddiadau adolygu: |

| **ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL** | |
|---|---|
| Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau’r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi. | |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad |
| | |
| Llofnodwyd | Dyddiad adolygu |

| | |
|---|---|
| (Uwch Berchennog Cyfrifol) | |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |